

YR AWDURON

Awduron y modiwl hwn cyn argraffiad 1990 oedd Pauline Baird, Rod Bennett a Morag Hamilton o Sefydliad Robert Gordon.

Ysgrifennwyd pob argraffiad arall o 1990 hyd at y rhifyn 2024 hwn gan Lee Cooper, Rheolwr Dysgu a Safonau Cenedlaethol yn Seafish.

DIOLCHIADAU

Gyda chaniatâd Torry Research Station, mae peth o'r deunydd yn y modiwl hwn wedi'i godi o gyfres Nodiadau Cyngori Torry.

Mae tablau wedi'u copïo o'r llyfr 'Fish Handling and Processing' a gynhyrchwyd gan Torry Research Station ac a gyhoeddwyd gan HMSO.

Mae'r darluniau a'r graffeg gan Paul Patterson o Hull.

Mae fersiwn digidol o'r modiwl dysgu agored hwn ar gael ar wefan Seafoodacademy.org.

Canllaw i Ddysgwyr Agored

Bydd hyn yn helpu i egluro beth yw dysgu agored. Bydd yn eich helpu i wneud y defnydd gorau o'ch modiwl dysgu agored.

BETH SYDD MOR DDA AM DDYSGU AGORED?

Mae dysgu agored yn rhoi rhyddid i chi ddewis. Rydych yn astudio:

- Beth rydych am ei astudio
- Ble rydych am astudio
- Pryd rydych am astudio
- Ar gyflymder sy'n addas i chi.

Gallwch ddewis y pynciau rydych chi am eu dilyn. Nid oes yn rhaid i chi fod mewn ystafell ddosbarth benodol ar amser penodol. Ni fyddwch yn diflasu oherwydd bod y dysgu'n rhy araf, neu ar goll oherwydd ei fod yn rhy gyflym.

Anaml y bydd angen unrhyw gymwysterau arnoch cyn y caniateir i chi

astudio. Mae'r holl ryddid hwn yn caniatáu i chi ffitio'ch astudio yn eich

trefn ddyddiol.

Y peth gorau amdano i'r rhan fwyaf o bobl yw y gallant astudio heb orfod cymryd amser gwerthfawr o'r gwaith.

Ysgrifennir modiwlau mewn ffordd sy'n caniatáu i chi astudio heb gymorth. Fodd bynnag, disgwylir y bydd angen cymorth arnoch o bryd i'w gilydd a gellir darparu hyn fel arfer.

PETHAU Y DYLECH EU GWYBOD AM EICH MODIWL

Beth yw modiwl?

Rhennir pob modiwl yn segmentau. Gallech feddwl am bob segment fel gwrs.

Cyn i chi ddechrau

Bydd cyflwyniad byr i bob modiwl. Byddwch yn cael rhestr o bethau fydd eu hangen arnoch. Ar gyfer rhai modiwlau, bydd angen offer arbennig. Gallwn gyflenwi'r rhan fwyaf o'r rhain. Bydd yr adran hon hefyd yn dweud wrthyfych a oes angen unrhyw wybodaeth neu brofiad arnoch cyn i chi ddechrau. Gwiriwch fod gennych bopeth sydd ei angen arnoch.

Amcanion

Mae modiwlau wedi'u seilio ar amcanion sy'n dweud wrthyhych beth fyddwch chi'n gallu ei wneud pan fyddwch wedi gorffen. Mae'r rhain wedi'u datgan yn glir. Dylech wirio bod amcanion y modiwl yn cyd-fynd â'ch rhesymau chi dros astudio. Byddwch yn cael gwybod pan fyddwch wedi cyflawni pob amcan. Fel hyn gallwch yn hawdd gadw golwg ar eich cynnydd.

SAQ

Acronym yw hwn ar gyfer **cwestiynau hunanasesu**. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio'n ofalus i'ch helpu. Maent yn rhoi gwybod i chi am y cynnydd rydych yn ei wneud. Maent yn eich helpu i ganfod unrhyw broblemau y gallech fod yn eu cael gyda'r deunydd ac yn eich helpu i'w cywiro.

Peidiwch â chael eich temtio i hepgor y cwestiynau hyn. Peidiwch ag edrych ar yr atebion cyn rhoi cynnig arnynt! Dim ond twyllo eich hun fyddwch chi.

Pan ddisgwylir i chi ysgrifennu ateb, bydd bwlch yn cael ei adael yn y testun. Cofiwch mai eich offeryn dysgu yw'r modiwl, nid gwerslyfr, felly ewch ymlaen ac ysgrifennwch arno. **Peidiwch** â cheisio cadw ateb yn eich pen nes eich bod wedi ei wirio. **Ysgrifennwch eich ateb yn gyntaf bob amser**. Mae ysgrifennu'r ateb llawn i lawr yn bwysig iawn, mae'n gwneud i chi feddwl o ddifrif am yr hyn rydych chi'n ei wneud. Mae'r ymylon llydan yno i chi wneud nodiadau ynddynt.

Fe sylwch nad yw'r rhifau a roddir i'r SAQ yn dilyn ei gilydd. Rydym wedi gwneud hyn yn fwiadol. Mae hyn i'ch atal rhag gweld yr ateb i'r ail SAQ ar ddamwain pan fyddwch yn edrych ar yr ymateb i'r cyntaf. Mae'r ymatebion i'r SAQ yn y cefn. Maent yn y drefn gywir o ran rhifau. Rydym wedi eu galw'n ymatebion oherwydd maent fel arfer yn fwy na dim ond atebion. Mae'n syniad da darllen yr ymateb cyfan bob tro. Mae fel arfer yn helpu i wybod am gamgymeriadau cyffredin er eich bod wedi cael yr ateb cywir.


Mae SAQ yn cael eu dangos gan flwch gyda marc cwestiwn a rhif y cwestiwn.

? SAQ1



Mae fersiwn digidol y modiwl dysgu agored hwn yn cynnwys yr holl SAQ mewn un ddogfen pdf y gallwch ei hargraffu, ysgrifennu arni a dod â hi gyda chi i'ch arholiad. Gweler y cyfarwyddiadau ar-lein neu defnyddiwch y cod QR hwn.

Gwybodaeth bwysig

Defnyddir blychau eraill i ddangos gwahanol fathau o wybodaeth. Mae blwch gyda'r  yn y gornel chwith uchaf yn cynnwys gwybodaeth bwysig.


Rhybuddion

Mae blwch gyda'r arwydd rhybudd yn rhoi gwybodaeth am beryglon posibl, peryglon iechyd, ac ati.



Diffiniadau

Defnyddir blwch gyda phrint llai ar gyfer diffiniadau a dyfyniadau o ddogfennau.



Mathau eraill o blwyslais

Defnyddir arlliwio fel hyn i dynnu sylw at frawddegau a pharagraffau pwysig.

Defnyddir teip trwm er mwyn gwneud i eiriau neu rifau pwysig fod yn amlwg.

HELP OS YDYCH CHI'N MYND YN SOWND

Pan gewch eich modiwl rhoddir gwybod i chi am unrhyw gymorth y gellir ei drefnu. Gallai hyn fod drwy un o'r canlynol:

- Ffôn neu e-bost;
- Cyfarfod wyneb yn wyneb neu alwad skype
- Cysylltwch â'ch darparwr hyfforddiant cymeradwy Seafish am gyngor

Holiadur

Mae ffurflen adborth ar ddiwedd y modiwl sydd wedi'i argraffu hwn. Gallwch hefyd roi adborth gydag arolwg ar-lein. Os oes gennych chi ffôn clyfar sy'n darllen codau QR yna rhowch gynnig ar ein harolwg.



CYNGHORION AR GYFER ASTUDIO

Pryd?

Ceisiwch greu trefn astudio reolaidd. Neilltuwch amseroedd astudio ond byddwch yn barod i addasu ychydig. Os oes rhaid, collwch un o'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio, ond ceisiwch ddal i fyny yn nes ymlaen.

Gosodwch dargedau realistig i chi'ch hun fel 'Byddaf yn gorffen segmentau un a dau erbyn y penwythnos hwn' **a chadwch atynt!**

Bachwch ar y cyfle i astudio ar adegau od. Byddwch chi'n synnu faint y gallwch chi ei ddysgu mewn chwarter awr. Mae'n anodd i'r person cyffredin ganolbwyntio go iawn am fwy nag 20 munud ar y tro beth bynnag. Gair o rybudd - peidiwch â meddwl y gallwch ddysgu yn unrhyw le. Mae angen i chi allu canolbwyntio, yn aml mae pethau sy'n tynnu sylw ac yn atal hyn.

Nid yw'r amser a dreulir dim ond yn **darllen** yr un peth â'r amser a dreulir yn **dysgu**.

- Rhaid i chi gymryd rhan, mae'r dysgu gorau yn digwydd pan fyddwch chi'n weithredol, e.e. ateb cwestiynau a gwneud nodiadau.
- Peidiwch ag astudio'n rhy hir heb egwyl.

Bydd y modiwl hwn yn eich atgoffa o fannau addas i aros am ychydig, ond os oes angen egwyl yn gynt, cymerwch un. Eich dewis chi ydyw yn llwyr.

Ble?

Ceisiwch ddod o hyd i rywle lle na fydd rhywbeth yn tynnu eich sylw. Bydd bron unrhyw le yn iawn. Mae'r cyfan yn dibynnu ar eich sefyllfa gartref ac yn y gwaith.

Peidiwch ag anghofio eich llyfrgell leol.

Y gyfrinach yw, **bod yn hyblyg**. Os yw'r plant yn cael parti, ewch i dŷ modryb. Os nad yw hi adref, ewch i'r llyfrgell. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw rhywle lle gallwch chi fwrw ymlaen â'r gwaith a lle na aflonyddir arnoch.

Cariwch eich modiwl gyda chi pan fo hynny'n bosibl. Ceisiwch ddod o hyd i fylchau yn eich trefn arferol pan allech wneud rhywfaint o astudio defnyddiol.

Nawr eich bod wedi penderfynu rhoi cynnig arni, **daliwch ati!** Peidiwch â rhoi'r gorau iddi. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael hi'n anodd astudio ar brydiau, mae hyn yn hollol naturiol. Mae hefyd yn gwbl naturiol i fod angen cymorth gyda rhannau rydych chi'n teimlo sy'n arbennig o anodd. Fodd bynnag, rydym yn siŵr y byddwch yn teimlo ei fod yn werth chweil.

DVD hyfforddiant hylendid bwyd a gynhyrchwyd gan Seafish yw **Strikeback 2**. Mae hefyd ar gael ar ein sianel youtube, cyfres o bum rhaglen fideo. Chwiliwch am seafishtheauthority ar youtube a chwiliwch am Strikeback neu defnyddiwch y Cod QR hwn.



Yr Arholiad!

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n astudio'r modiwl hwn yn ei wneud oherwydd eu bod eisiau cymhwyster mewn hylendid bwyd. Os dilynwch y llwybr hwn byddwch yn un o dros 10,000 o bobl sydd wedi cyflawni eu cymhwyster hylendid bwyd drwy'r modiwl Seafish hwn. Mae 30 cwestiwn ar y papur arholiad, pob un yn aml-ddewis.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer llwyddiant mewn arholiad:

- Penderfynwch ar y dyddiad targed ar gyfer eich arholiad – trefnwch ef drwy eich darparwr neu Seafish;
- Darllenwch y modiwl a gwnewch nodiadau;
 - Ceisiwch wneud hyn ddwywaith (neu fwy) ac anelwch at orffen eich darlleniad olaf dim ond diwrnod neu ddau cyn yr arholiad;
- Dechreuwch a gorffen drwy wyllo'r set lawn o fideos hyfforddiant hylendid Strikeback ar ein sianel youtube. Chwiliwch am seafishtheauthority a Strikeback. Mae **pum** rhaglen i'w gwyllo.

Rhagymadrodd

Croeso i'r modiwl astudio hwn ar **Hylendid a glanhau**. Er bod y testun yn defnyddio enghreifftiau sy'n seiliedig ar y diwydiant bwyd môr, bydd gwybodaeth am egwyddorion hylendid yn ddefnyddiol fel cyflwyniad i unrhyw un y mae ei waith yn ymwneud â thrin bwydydd eraill.

Gofynion cyn mynediad

Ni thbyr bod gennych unrhyw gymwysterau neu brofiad blaenorol.

Offer sydd ei angen

Nid oes angen unrhyw offer arbennig, er bod y gallu i fynd ar youtube yn ddefnyddiol. Y cyfan fydd ei angen arnoch chi yw pensil. Fe welwch fod lle wedi'i adael yn y testun ar gyfer eich atebion i'r cwestiynau hunanasesu.

Opsiynau arholiad

Ar ôl cwblhau'r modiwl hylendid a'r cwestiynau hunanasesu, a phan fyddwch yn teimlo bod gennych ddealltwriaeth dda o hylendid a glanhau, y cam nesaf yw sefyll yr arholiad a all arwain at gymhwyster mewn hylendid bwyd. Gellir cael manylion y canolfannau lle cynhelir arholiadau, y costau, a'r gweithdrefnau gan y sawl a ddarparodd y modiwl, neu:

Seafish Training onshore@Seafish.co.uk

Ffôn 01472 252300.

Mae'r arholiad ar ffurf prawf amlddewis sy'n para tua 30 munud. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Tystysgrif Hylendid Bwyd Elfennol gan **Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)**. Mae Seafish yn gorff dyfarnu ar y cyd â REHIS ar gyfer y cymhwyster hwn a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Rhaid i chi ddod â'ch modiwl dysgu agored gyda chi i'r arholiad fel y gellir edrych arno. Bydd y person sy'n cynnal yr arholiad eisiau gweld bod y modiwl wedi'i ddefnyddio a'r SAQ wedi'u cwblhau. Nid ydym yn poeni a yw eich atebion SAQ yn gywir, dim ond eich bod wedi rhoi cynnig arnynt.

Dylech hefyd ddod â dull adnabod addas gyda chi (ID llun sydd orau)

Ar ôl yr arholiad bydd yn cymryd hyd at 28 diwrnod i farcio'r papurau a chyhoeddi tystysgrifau. Os ydych chi eisiau gwybod y canlyniad yn gynt, siaradwch â threfnydd eich arholiad cyn dechrau'r arholiad.

Amcanion

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn dylech allu:

1. Dweud beth yw'r cysylltiad rhwng bacteria a gwenwyn bwyd ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl gwenwyn bwyd.
2. Rhestru'r mathau cyffredin o facteria gwenwyn bwyd a dweud sut i osgoi'r amodau hynny sy'n ddelfrydol iddynt luosogi.
3. Asesu safonau hylendid a chynnal y safon uchel sy'n angenrheidiol wrth drin bwyd.
4. Disgrifio safleoedd a chyfleusterau addas at ddibenion trin bwyd.
5. Disgrifio priodweddau deunyddiau glanhau addas a chynllunio trefn lanhau.
6. Cysylltu mathau cyffredin o blâu i halogiad bwyd a nodi rhai dulliau o reoli plâu.
7. Cadw at y cyfreithiau a'r rheoliadau sylfaenol sy'n effeithio ar drin bwyd.
8. Deall y prif egwyddorion y tu ôl i HACCP yn y diwydiant bwyd môr.
9. Deall sut mae hylendid bwyd yn berthnasol yn y diwydiant ffrio pysgod
10. Sefyll arholiad cymhwyster mewn hylendid bwyd elfennol gyda'r hyder eich bod wedi ymdrin â'r holl elfennau sydd eu hangen ar gyfer canlyniad llwyddiannus.